Adroddiad Blynyddol ar gyfer Pwyllgor Cymru y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol
Mehefin 2008

Cyflwyniad

Daeth blwyddyn gyntaf Pwyllgor Cymru y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) i ben ddechrau mis Mawrth 2008. Cynhyrchwyd yr adroddiad byr hwn er mwyn cofnodi'r datblygiadau a rhannu profiadau'r deuddeg mis diwethaf. Mae'n crynhoi'r gweithgareddau craidd a phwyntiau trafod o bob un o'r cyfarfodydd a digwyddiadau a gynhaliwyd hyd yma.

Sefydlu'r Pwyllgor

Cafodd y cynlluniau ar gyfer sefydlu Pwyllgor Cymru y CLS eu nodi yn Strategaeth y CLS - Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2008. Y flwyddyn ddilynol, datblygodd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylltiad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Prydain, fframwaith polisi ar gyfer Cymru er mwyn hwyluso gweithredu Strategaeth y CLS. Roedd y cydweithio hyn yn ei gwneud yn bosibl ystyried y weledigaeth ar gyfer y CLS gan roi sylw llawn i ddatganoli, iaith a diwylliant yng Nghymru.

Cyhoeddwyd Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru yn dilyn ymgynghoriad llawn a gyda chymeradwyaeth y Gweinidog dros Gymorth Cyfreithiol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ym mis Medi 2007. Roedd y papur a gyhoeddwyd yn rhoi cefnogaeth ar gyfer adeiladu ar y cynlluniau dechreuol ar gyfer Pwyllgor Cymru ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ychwanegiadau allweddol i aelodaeth Pwyllgor Cymru y CLS.

Roedd yr amcanion allweddol yn Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru yn cynnwys:

1. Sefydlu strwythur llywodraethu clir i sicrhau dynesiadau ar y cyd ar gyfer polisi a chyllido, ynghyd â dulliau i ddeall anghenion cyngor dinasyddion Cymru;
2. Gwasanaeth ffôn estynedig fydd yn rhoi porth effeithiol i amrediad eang o ddarpariaeth cyngor ar gyfer holl ddinasyddion Cymru;
3. Cyd-gomisiynu gwasanaethau cyngor, drwy Gwasanaethau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (canolfannau neu rwydweithiau), i sicrhau cydlynu cyllid a mynediad lleol rhwydd i amrediad eang o wasanaethau cyngor ategol;
4. Codi ymwybyddiaeth ymysg dinasyddion o'u hawliau cyfreithiol a'u cyfrifoldebau drwy gynyddu addysg gyfreithiol;
5. Dynodi achos gwreiddiol problemau sydd angen ateb cyfreithiol, a chynnal ymchwil perthnasol a gweithredu strategol i ddileu problemau yn eu gwraidd.

Egwyddorion ar gyfer sefydlu'r Pwyllgor

Teulu Cyfiawnder

Prif bwrpas sefydlu Pwyllgor Cymru oedd galluogi datblygiad effeithiol y CLS yng Nghymru. Er bod y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn arwain ar ddatblygu'r CLS, mae'n parhau i fod yn ymwybodol iawn na all gyflawni ei botensial llawn heb gydweithredu gyda rhanddeiliaid allweddol.

Wrth geisio gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y CLS, gwahoddwyd sefydliadau allweddol o'r Teulu Cyfiawnder yng Nghymru i ddod ynghyd drwy Bwyllgor Cymru. Mae gan y sefydliadau hyn, rhai wedi'u datganoli ac eraill heb eu datganoli, ddiddordeb brwd yn y ffordd y datblygir gwasanaethau cyngor cyfreithiol sifil yn y dyfodol.

Mae angen cydweithredu ar nifer o lefelau. Mae rhannu gwybodaeth, polisïau a blaenoriaethau, yn rhoi'r cyfle i'r sefydliadau sy'n aelodau o'r Pwyllgor i fod yn rhagweithiol wrth ddynodi nodau a rennir a phan fo cydweithio o fudd.

Ceisiodd y cynigion a nodwyd yn Strategaeth y CLS ar gyfer cyd-gomisiynu gwasanaethau cyngor cyfreithiol gymryd camau i chwalu rhai o'r rhwystrau y mae dinasyddion yn eu hwynebu ar hyn o bryd wrth gael mynediad i gyngor. Caiff y dull seilo o ariannu cyngor cyfreithiol, yn aml fel canlyniad ffrydiau cyllido a blaenoriaethau arwahanol neu gyfyngedig, yn awr ei herio drwy'r gynigion cyd-gomisiynu. Mae cyd-gomisiynu gwasanaethau yn galluogi sefydliadau cyllido i roi'r dinesydd yng nghanol dylunio a chyflenwi gwasanaeth.

O'u hanfod, mae'r themâu a nodir yn adolygiad Syr Jeremy Beecham ar gyfer adolygu gwasanaethau cyhoeddus – Cyflawni ar draws Ffiniau, ac ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy ei agenda Creu'r Cysylltiadau yn sylfaenol i ddiben a ffocws Pwyllgor Cymru y CLS. Medrai cynyddu cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus ei gwneud yn bosibl i gyflawni'r amcanion a rannwn - gwasanaethau cyngor cyfreithiol sydd yn canolbwyntio ar y dinesydd ac sydd â sicrwydd ansawdd, yn cynnig gwerth da am arian cyhoeddus.

Aelodaeth

Roedd cynigion cynnar Pwyllgor Cymru wedi rhagweld sefydliadau cyllido yn cael eu hwyluso i gydweithredu i alluogi cyflenwi'r gwasanaeth gorau posibl i ddinasyddion. Yn ystod datblygu ac ymgynghori ar Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru, daeth yn glir i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol fod llawer o randdeiliaid eraill yn ogystal â chyllidwyr presennol cyngor cyfreithiol yn allweddol wrth wneud gwelliannau o'r fath. Roedd y rhain yn cynnwys sefydliadau oedd â rôl allweddol mewn datblygu polisi, cyflenwi gwasanaeth ac wrth hwyluso llais y dinesydd a fyddai'n ychwanegu gwerth sylweddol i waith Pwyllgor Cymru.

Drwy'r broses ddatblygu ac ymgynghori, roedd cefnogaeth lawn i gael aelodaeth ehangach, a fyddai yn y pen draw yn rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer cyd raglen comisiynu wybodus ar gyfer cyngor cyfreithiol yng Nghymru. Yn ychwanegol, byddai'n rhoi dull mwy strategol i fynd i'r afael ag anghenion Cymru, yng nghyswllt gorchudd addysg gyfreithiol i'w dinasyddion, a thrwy ddynodi a gweithredu i fynd i'r afael ag achosion gwraidd problemau sy'n wynebu dinasyddion Cymru ac yn y diwedd sy'n

achosi iddynt geisio cyngor cyfreithiol.

Ers cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ym Mawrth 2007, mae aelodaeth Pwyllgor Cymru wedi tyfu i gynnwys cynrychiolwyr allweddol.

Mae aelodau presennol Pwyllgor Cymru y CLS yn cynnwys:

CAFCASS Cymru
Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol (LSRC)
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Cyngor Defnyddwyr Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol CLS
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (HMCS)
Gwasanaeth Tribiwnlysoedd
Llywodraeth Cynulliad Cymru
SOLACE Cymru
Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Tom Jones OBE yw Cadeirydd Pwyllgor Cymru a Chomisiynydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer Cymru a De Lloegr. Caiff Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a'i aelodaeth eu hadolygu'n flynyddol. Cynhwysir y Cylch Gorchwyl cyfredol fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Rhaglen Cyfarfodydd

Mae Pwyllgor Cymru'n cwrdd o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn. Caiff dau o'r cyfarfodydd hyn eu cadw ar gyfer themâu penodol. Neilltuir un cyfarfod i ymgysylltu gyda dinasyddion a/neu eu cyrff cynrychioladol, a'r llall i ymgysylltu gyda darparwyr gwasanaeth a/neu eu cyrff cynrychioliadol. Medrir hidlo sylwadau dinasyddion a darparwyr gwasanaeth i'r Pwyllgor eu hystyried ar unrhyw amser yn ystod y flwyddyn, ond mae'r rhaglen a osodwyd yn rhoi cyfle ar gyfer canolbwyntio, a chyfrwng i leisiau gael eu clywed.

Mae aelodau'r pwyllgor yn parhau i ymgysylltu gyda dinasyddion a darparwyr gwasanaeth y tu allan i strwythur y Pwyllgor yn ôl polisïau a gweithdrefnau eu sefydliad eu hunain.

Cyfarfodydd

2 Mawrth 2007 – Canolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd

Lansiwyd Pwyllgor Cymru yn ffurfiol gan Syr Michael Bichard, Cadeirydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Amlinellodd Syr Michael y rôl bwysig fyddai gan y Pwyllgor yn y diwedd wrth hwyluso cyflenwi'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru yn effeithlon ar gyfer budd dinasyddion Cymru. Rhoddodd pob un o'r aelod-sefydliadau gipolwg ar eu rôl a'u blaenoriaethau.

Cyflwyniadau

- Rhoddodd Uned Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyniad yn amlinellu'r fframwaith polisi ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Sefydlwyd y fframwaith hwn fel ymateb i adolygiad Syr Jeremy Beecham o gyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus - Ar Draws Ffiniau.

- Rhoddodd Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol fanylion ei ymchwil – Causes of Action, yn canolbwyntio'n neilltuol ar fodelu ardal fechan a gynhaliwyd.

8 Mehefin 2007 – Cyfarfod ffocws ar ddarparwyr, Neuadd y Ddinas, Caerdydd

Gwahoddwyd sefydliadau cynrychioli darparwyr cyngor cyfreithiol o bob sector i gyfarfod gyda'r Pwyllgor ym mis Mehefin. Gofynnwyd i'r cyrff cynrychioladol hyn i estyn gwahoddiadau i ddarparwyr gwasanaeth unigol o'r sectorau gwirfoddol a phreifat ledled Cymru, ac i geisio sicrhau cynrychiolaeth amrywiol o sefydliadau yn gweithredu ar draws categorïau cyfreithiol a daearyddiaeth Cymru.

Cyflwyniadau

- Rhoddodd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithol amlinelliad o gynlluniau'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer caffael gwasanaethau cyfraith lles cymdeithasol integredig ar draws Lloegr a Chymru, drwy Ganolfannau a Rhwydweithiau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol. Dilynwyd hyn gyda diweddariad ar y cynnydd a wnaethpwyd wrth ddatblygu'r cyd-fframwaith polisi – Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Derbyniwyd cyflwyniad gan Wasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) ar ei Strategaeth i Ostwng Aildroseddu yng Nghymru a'i saith Llwybr ymyriad.

14 Medi 2007 – Park Inn, Caerdydd

Croesawodd Pwyllgor Cymru bedwar aelod newydd i'w gyfarfod Hydref. Roedd y rhain yn gynrychiolwyr a ddynodwyd dros y misoedd blaenorol fel rhai a fyddai â diddordeb yn awr neu yn y dyfodol yn natblygiad y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Roeddent yn cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol y CLS, SOLACE Cymru a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Amlinellodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y rôl allweddol fyddai ganddo wrth roi dull i leisiau dinasyddion ym mhob cwr o Gymru gael eu clywed ym Mhwyllgor Cymru. Yn ychwanegol, rhoddwyd awgrymiadau allweddol i'r Pwyllgor i oleuo'r achlysuron pan fyddai'n ceisio ymgysylltu'n uniongyrchol gyda dinasyddion. Rhoddodd Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol y CLS amlinelliad o'i rôl, a thynnu sylw at ei allu i grisialu a sianelu barn cleientiaid sy'n defnyddio gwasanaethau cyngor yng Nghymru ar hyn o bryd.

Cyflwyniadau

- Rhoddodd Tîm Cyswllt Defnyddwyr Cymru gyflwyniad yn rhoi manylion gweithredol llinell gymorth ffôn Cyswllt Defnyddwyr yng Nghymru
- Rhoddodd Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) gipolwg ar bob un o'r prosiectau NOMS sydd ar waith i ostwng aildroseddu

- Cyflwynodd yr Athro Richard Moorhead, siaradwr gwadd yn y Pwyllgor, ei 'A Trouble Shared – legal problems clusters in solicitors' and advice agencies'.

5 Rhagfyr 2007 – Cyfarfod ffocws ar ddinasyddion, Holiday Inn, Caerdydd
Agorodd Crispin Passmore, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol y cyfarfod cyntaf i ymgysylltu â dinasyddion yn Rhagfyr 2007.

Prif nod y rhaglen oedd ysgogi syniadau ar sut y gall y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas gael llais wrth ddarparu, datblygu a gwerthuso gwasanaethau cyfreithiol. Gwahoddwyd sefydliadau a grwpiau cynrychioli dinasyddion i gymryd rhan yn y digwyddiad a helpu i lunio cynlluniau'r dyfodol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion. Fel rhan o'r digwyddiad, cynhaliodd Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol weithdai gyda ffocws penodol ar addysg gyfreithiol fel rhan o'r digwyddiad. Gofynnwyd i gynrychiolwyr dinasyddion ystyried a chymryd rôl rhagweithiol wrth ddarparu deunyddiau addysg gyfreithiol i'r rhai a gynrychiolant. Mae adroddiad o'r cyfarfod yn Atodiad B.

7 Mawrth 2008 – Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd
Nododd y Pwyllgor ei flwyddyn lawn gyntaf mewn cyfarfod yn Stadiwm y Mileniwm ddechrau mis Mawrth.

Aeth bron chwe mis heibio ers cyhoeddi Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru a manteisiodd y Pwyllgor ar y cyfle i adfyfyrio ar y cynnydd a wnaed tuag at ei weithredu.

Adolygwyd y drafft adroddiad o'r Cyfarfod Ymgysylltu â Dinasyddion ac ystyriwyd yr argymhellion arfaethedig. Ymrwymodd aelodau'r pwyllgor i ystyried sut y medrid cynnwys yr argymhellion mewn rhaglenni gwaith perthnasol sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd neu a gynhelir yn y dyfodol.

Rhoddodd cynrychiolydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiweddariad ar y datblygiadau tuag at Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ychwanegol, derbyniwyd adroddiad diweddaru ar y trefniadau ailstrwythuro ar NOMS a chynnydd y Llwybr Cyllid, Budd-daliadau a Dyled oedd yn ei le ar gyfer Cymru.

Beth ydyn ni wedi'i gyflawni?
Dros y deuddeg mis diwethaf, drwy Bwyllgor Cymru a'r sefydliadau sy'n aelodau ohono, sicrhawyd sylfaen gadarn ar gyfer gwella mynediad i gyfiawnder yng Nghymru. Mae'r cyflawniadau hyn yn cynnwys:

1. Rhannu dealltwriaeth o gyllid, polisi ac amcanion a blaenoriaethau allweddol y partneriaid;
2. Sylfaen ar gyfer ymgysylltu'n gadarn gyda dinasyddion a darparwyr gwasanaeth;
3. Trafodaethau'n mynd rhagddynt yn dda tuag at sefydlu'r Rhwydwaith Cyngor Cyfreithiol Cymunedol cyntaf yng Nghymru ar sail ranbarthol, gan gronni adnoddau ar draws nifer o awdurdodau lleol;
4. Cytundeb rhwng y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraeth

Cynulliad Cymru i gyd-gomisiynu gwasanaethau cyngor cyfreithiol, yn unol â chynlluniau ar gyfer Rhwydweithiau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol rhanbarthol ledled Cymru;

5. Datblygu perthynas gyda llywodraeth leol drwy strwythurau hwyluso a rhanbarthol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
6. Cydweithio i wella gwasanaethau cynghori ar gyfer troseddwyr a'u teuluoedd drwy fframwaith NOMS.

Cyfarfodydd y Dyfodol
Bydd Pwyllgor Cymru yn cwrdd deirgwaith eto yn ystod 2008.

Cynhelir y cyfarfodydd hyn fel sy'n dilyn:
Dydd Gwener, 6 Mehefin 2008 yng Nghaernarfon – cyfarfod ffocws darparwyr
Dydd Gwener 12 Medi yng Nghaerdydd
Dydd Gwener 5 Rhagfyr - cyfarfod ffocws dinasyddion (pobl ifanc).

Cofnodion Cyfarfodydd
Mae cofnodion pob cyfarfod ar gael ar dudalennau Cymru gwefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn www.legalservices.gov.uk. Unwaith y'u cyhoeddwyd, mae cofnodion ar gael yn y Gymraeg. Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd yn dilyn eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ar Bwyllgor Cymru y CLS, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Tiana Williams
Rheolwr Polisi Cymru
Tîm Polisi Sifil
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
4ydd Llawr, Tŷ Marland
Sgwâr Canolog
Caerdydd
CF10 1PF
02920 647162
Tiana.Williams@legalservices.gov.uk

Pwyllgor Cymru y Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol - Cylch Gorchwyl

Cylch Gorchwyl

Pwrpas

1. Cryfhau a gwella cyflenwi'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru drwy ddod ag arianwyr gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau cynghori ynghyd.

2. Nodi sut y bydd newidiadau mewn strwythurau gwleidyddol, y gyfraith a pholisi cymdeithasol yng Nghymru yn effeithio ar gyflenwi gwasanaethau cyngor cyfreithiol a chynllunio ar gyfer yr effeithiau hyn.

3. Nodi materion yn codi yng Nghymru y dylai Pwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol Lloegr a Chymru fod yn gwybod amdanynt yn ei drafodaethau.

4. Hwyluso rhannu gwybodaeth a hysbysrwydd am:
    a. yr angen am wasanaethau cyngor cyfreithiol yng Nghymru, gan nodi'r rhaglenni cyfredol a rhaglenni'r dyfodol yn y maes hwn ac ystyried sut y medrid eu gwella a'u helaethu a sicrhau gwell canlyniadau a gwerth drwy gydlynu'r gweithgareddau hyn yn fwy effeithlon
    b. cyflenwi gwasanaethau cyngor cyfreithiol yng Nghymru ar hyn o bryd
    c. darparwyr gwasanaethau cyngor cyfreithiol yng Nghymru

5. Hwyluso cyd-gynllunio gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n effeithio ar anghenion cyngor cyfreithiol cleientiaid.

6. Datblygu ffyrdd o fynd i'r afael ag achosion systemaidd neu "wraidd" wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus (a phreifat) sy'n achosi problemau cyfreithiol i gleientiaid.

7. Rhoi llais i bobl Cymru yn natblygiad y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

Aelodaeth Arwyddol

Cynrychiolwyr:
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Llywodraeth Cynulliad Cymru (cynrychiolwyr priodol o unedau o fewn Llywodraeth y Cynulliad)
CAFCASS Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Defnyddwyr Cymru
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (HMCS)
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)
Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithol

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol CLS

Bydd Tom Jones, aelod o'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, yn cadeirio'r Pwyllgor. Cynrychiolir y Comisiwn hefyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, cynrychiolydd o Dîm Polisi Sifil yr LSC a Chyfarwyddwr LSC Cymru.

Ysgrifenyddiaeth
Bydd y Comisiwn yn cynnal dyletswyddau ysgrifenyddol ar gyfer y Pwyllgor, ond gofynnir am bapurau ac eitemau agenda gan bob sefydliad a chyrff a gynrychiolir.

Cyfarfodydd
Bydd y Pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn mewn lleoliadau cyfleus. Unwaith y flwyddyn bydd yn cynnwys cyfarfod gyda chynrychiolwyr darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chyngor yng Nghymru. Cynigir cynnal hyn drwy Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol y CLS. Bydd un cyfarfod yn cynnwys cyfarfod gyda grŵp ymgynghori cleientiaid a sefydlir. Ni thalir ffioedd presenoldeb i aelodau gan y byddant yn mynychu fel cynrychiolwyr eu sefydliadau neilltuol.

Adolygu
Caiff Cylch Gorchwyl Pwyllgor Cymru y CLS ei adolygu'n flynyddol.

Pwyllgor Cymru y CLS - Crynodeb o gyfarfod Ymgysylltu â Dinasyddion 7 Rhagfyr 2007, Holiday Inn, Stryd y Castell, Caerdydd

Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru

Cyhoeddwyd Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru ym mis Medi 2007 ac mae'n amlinellu fframwaith ar gyfer y CLS yng Nghymru. Mae'n nodi strwythurau llywodraethu clir ar gyfer y CLS yn ogystal â chynlluniau ar gyfer cyd-gomisiynu gwasanaethau cyngor cyfreithol yng Nghymru, gyda'r prif ffocws ar gaffael yr amrediad llawn o wasanaethau cyngor cyfreithiol mewn pecynnau sy'n diwallu anghenion ei holl ddinasyddion. Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth y Comisiwn am system cymorth cyfreithiol sifil sydd â mwy o ffocws ar y rhai sydd yn yr angen mwyaf drwy ddatblygu system fwy cydlynol a chost effeithiol. Mae hefyd yn hwyluso mwy o ymgysylltu gyda grwpiau sy'n cynrychioli dinasyddion a dinasyddion eu hunain er mwyn deall anghenion cyngor cyfreithol pobl yng Nghymru.

Pwyllgor Cymru y Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol

Cynhaliodd Pwyllgor Cymru y CLS ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2007. Pwrpas a chylch gorchwyl y pwyllgor yw:

- Cryfhau a gwella cyflenwi'r CLS yng Nghymru drwy ddod ynghyd â chyllidwyr darparwyr cyfreithiol a chyngor;
- Dynodi sut y bydd newidiadau mewn strwythurau gwleidyddol, y gyfraith a pholisi cymdeithasol yng Nghymru yn effeithio ar gyflenwi gwasanaethau cyngor cyfreithiol a chynllunio ar gyfer yr effeithiau hyn.
- Hwyluso cyd-gynllunio gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n effeithio ar anghenion cyngor cyfreithiol cleientiaid.
- Datblygu ffyrdd o drin materion systematig neu "wir achosion" wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a phreifat sy'n achosi problemau cyfreithiol ar gyfer cleientiaid.
- Rhoi llais i bobl Cymru ar ddatblygiad y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

Mae aelodaeth bresennol Pwyllgor Cymru ar gael yn 'Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru'. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol l- www.legalservices.gov.uk a gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru- www,cymru.gov.uk.

Cefndir a Throsolwg

Yn ystod mis Rhagfyr 2007, cynhaliodd Pwyllgor Cymru y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) ei gyfarfod cyfarfod ymgysylltu â dinasyddion fel rhan o'i raglen o gyfarfodydd fel y nodir ym mhapur polisi'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru.

Amlinelliad o'r digwyddiad

Amcan y digwyddiad oedd ysgogi syniadau ar sut y gall y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas gael llais yn narpariaeth, datblygiad a gwerthusiad gwasanaethau cyngor cyfreithol.

Cydnabyddir fod pobl fregus a phobl sydd wedi eu hallgau'n ariannol yn fwy tebygol o wynebu 'clystyrau' o broblemau, ac yn llai tebygol o wneud unrhyw beth amdanynt. Efallai hefyd nad ydynt yn gwybod am yr help sydd ar gael neu os ydynt yn gwybod amdano, efallai nad ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i geisio help.

Fel cam cyntaf, ceisiodd Pwyllgor Cymru ymgysylltu gyda sefydliadau sy'n cynrychioli dinasyddion yng Nghymru. Lluniwyd rhestr amrywiol o sefydliadau gyda mewnbwn sylweddol gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'r CGGC yn aelod o'r Pwyllgor gyda chyfrifoldeb penodol am ddinasyddion a bu ganddynt rôl allweddol wrth gael manylion o'u rhwydweithiau niferus o sefydliadau cymunedol ac mewn annog presenoldeb yn y digwyddiad.

Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r digwyddiad gyda phresenoldeb llawn. I sicrhau cynrychiolaeth o'r ystod eang o sefydliadau amgylchiadau, yn y rhan fwyaf o achosion cyfyngwyd nifer y lleoedd i un cynrychiolydd o bob sefydliad.

Roedd cynrychiolaeth eang o bob rhan o sefydliadau Trydydd Sector yng Nghymru a lefelau cymysg o ymwybyddiaeth o waith y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Roedd felly'n gyfle i rannu gwybodaeth, rhwydweithio ac ar gyfer tynnu sylw i'r amrediad eang o wasanaethau a ddarperir gan bob un o'r sefydliadau oedd yn mynychu.

Agorwyd y digwyddiad gan Tom Jones, Comisiynydd Cymru y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Chadeirydd Pwyllgor Cymru y CLS, ac estynnodd groeso i bawb oedd yn bresennol. Rhoddodd Crispin Passmore, Cyfarwyddwr y CLS, y cefndir i 'Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru' a chyfeiriad polisi y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn y dyfodol.

Rhannwyd y cynrychiolwyr yn dri grŵp yn ystod y dydd a chynhaliwyd cyfres o weithdai.

Ffocws y Gweithdai

Gweithdy 1
Y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol (LSRC) yw braich ymchwil annibynnol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Fe'i sefydlwyd yn 1996 i oleuo polisi cymorth cyfreithiol a gweithredu diwygiadau. Mae ganddi gylch gorchwyl eang i gynnal ymchwil strategol yn y meysydd cyfiawnder sifil a throseddol.

Cynhaliodd yr LSRC y gweithdy cyntaf gyda ffocws penodol ar addysg a gwybodaeth gyfreithiol. Roedd y gweithdy yn cynnwys trafodaeth am y rôl ymarferol y gall cynrychiolwyr dinasyddion ei chwarae mewn addysg gyfreithiol.

Y cwestiynau a ofynnwyd i'r grwpiau ar gyfer trafodaeth oedd:

- I ba raddau y medrir cyrraedd y mwyaf bregus drwy gynlluniau addysg?

- A yw rhoi arian mewn cynlluniau addysg yn cynhyrchu gwell canlyniadau i bobl na buddsoddi arian cyhoeddus mewn amrediad o wahanol wasanaethau cyngor, yn cynnwys cyngor allgymorth?

Mae gwybodaeth bellach ar ymchwil a gyhoeddodd yr LSRC a phrosiectau ymchwil cyfredol ar gael yn www.lsrc.org.uk

Disgrifiwyd y cyflwyniadau gan yr LSRC fel bod yn ddefnyddiol tu hwnt ac yn agoriad llygad.

- Cytunwyd yn unfrydol fod addysg gyfreithiol yn hanfodol os dymunwn gyrraedd y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas. Mae'r ymchwil gan yr LSRC yn rhoi tystiolaeth i gadarnhau hyn. Mae'r gwahaniaethau yn y canlyniadau i unigolyn sy'n wynebu problemau pan wyddent eu hawliau o'u cymharu â rhai nad oedd yn gwybod am eu hawliau yn eithaf sylweddol.

- Ystyriwyd fod yr angen am addysg addas ac amserol yn hanfodol. Nid yw mwyafrif dinasyddion yn sylweddoli pan fo ganddynt broblem gyfreithiol ac mae'n her i addysgu cymunedau i wybod eu hawliau a chyfrifoldebau a rhoi grym iddynt gyrchu gwasanaethau.

- Ystyriwyd fod addysg gyfreithiol mewn ysgolion yn flaenoriaeth ac y dylid rhoi cefnogaeth sylweddol i unrhyw gynlluniau i gefnogi'r gweithgaredd hwn.

- Dynodwyd hefyd fod allfannau iechyd gofal sylfaenol ac eilaidd yn lleoedd y dylid eu targedu ar gyfer cynnal ystod eang o wybodaeth gyfreithiol.

- Dynodwyd hefyd fod troseddwyr a rhai mewn risg o ail-droseddu yn grŵp i'w dargedu ar gyfer addysg a chyngor cyfreithiol.

- Ystyriwyd ei bod yn bwysig lledaenu manylion Gwasanaethau Cyngor Cyfreithol Cymunedol drwy rwydweithiau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

- Dywedwyd fod prosiect Gwybodaeth yn Cyfri Shelter Cymru yn ffordd lwyddiannus o godi gwybodaeth ymysg 'sylwyr problemau'. Ystyriwyd fod ganddi ddylanwad uchel ac y dylid ei hymestyn ar draws pob rhan o Gymru.

- Er bod gwybodaeth yn hanfodol cytunwyd fod pobl yn dal i fod angen cael hyder a chefnogaeth i gymryd y camau nesaf. Dywedwyd fod bodolaeth grwpiau eiriolaeth a chefnogaeth yn hanfodol ar gyfer y bobl hynny sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Cytunwyd y dylent gael proffil uwch o fewn cymunedau oherwydd eu rôl allweddol yn cefnogi pobl fregus.

- Dynodwyd yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer ffocws penodol gan eu bod yn cael effaith sylweddol ar unigolion a'u hangen am gyngor oherwydd problemau cyffredin a mynych wrth gyrchu budd-daliadau.

- Daeth pob un o'r gweithdai i'r casgliad y byddai cael mwy o ffocws ar addysg ataliol i gael dylanwad tymor hir yn ddefnydd effeithiol o arian.

Gweithdy 2

Nod yr ail weithdy oedd ysgogi syniadau ar sut y medrir rhoi rhan i ddinasyddion wrth ddatblygu gwasanaethau cyngor cyfreithiol yn y dyfodol. Medrodd y grwpiau oedd yn cynrychioli dinasyddion dynnu sylw at y cymunedau hynny y mae angen i ni eu targedu i sicrhau fod pobl anodd eu cyrraedd ac aelodau mwyaf bregus cymdeithas yn medru ac yn gwybod sut i gyrchu gwasanaethau cyngor. Bu trafodaeth agored ar sut mae dinasyddion yn cyrchu gwasanaethau ar hyn o bryd a beth fedrid ei wneud i wella mynediad ymhellach. Yn neilltuol, bu trafodaeth am sut i roi rhan i ddinasyddion wrth ddatblygu gwasanaethau cyngor cyfreithiol yn y dyfodol. Gofynnwyd cwestiynau penodol i'r grŵp i gael eu barn:

1. Pa wasanaethau sydd yna sydd ar hyn o bryd yn diwallu anghenion grwpiau bregus a sut y medrwn adeiladu ar unrhyw enghreifftiau o arfer da?

2. **(a)** Pa lais sydd gan y dinesydd wrth ddatblygu gwasanaethau a gomisiynir?
   (b) Dynodi a chytuno ar broses ar gyfer sicrhau barn cymunedau yng Nghymru yng nghyswllt gwasanaethau cyngor cyfreithiol.

Dangosodd adborth o'r ddau weithdy fod llawer o asiantaethau cyngor presennol yn darparu gwasanaeth ardderchog. Gall anawsterau godi'n aml oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael ymysg grwpiau cynrychioli dinasyddion a sefydliadau cefnogaeth gymunedol yn ogystal ag ymysg dinasyddion. Gall hyn olygu fod unigolion yn cael eu hatgyfeirio at nifer o wahanol asiantaethau cyn cael eu rhoi mewn cysylltiad â'r un cywir, gan achosi blinder atgyfeirio a thrin diagnosis cleient ddwywaith.

Cyflwynodd y gweithdai a'r ffurflenni adborth y syniad o gael Panel Ymgysylltu â Dinasyddion ym mhob un o'r wyth ardal caffael. Dylai'r panel gael ei ffurfio o ddinasyddion a grwpiau cynrychioli dinasyddion i sicrhau y caiff anghenion dinasyddion eu trafod wrth gwmpasu dylunio a monitro gwasanaethau cyngor yn y dyfodol. Medrid wedyn ddefnyddio'r panel i gael barn wybodus am yr angen yn yr ardaloedd a gynrychiolant a sicrhau comisiynu gwasanaethau cyngor cyfreithiol mewn modd effeithlon. Ystyriwyd bod hyn yn hollbwysig wrth edrych ar y gwahaniaethau rhwng rhannau trefol a gwledig o Gymru. Ystyriwyd fod cysylltiadau cymunedol presennol megis cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf a Chynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol lleol yn rhanddeiliaid allweddol ar gyfer y paneli hyn.

Roedd hefyd adborth sylweddol yn amlygu'r angen am fwy o drawsgyfeirio ar draws rhwydweithiau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Awgrymwyd y

medrai CGGC fynd i'r afael â'r mater hwn drwy ei weithgaredd cyfathrebu. Rhagwelir y byddai hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o sefydliadau gydag aelodau gwahanol rwydweithiau. Rhannwyd llawer o enghreifftiau o arfer da o fewn y gweithdai. Dangosodd yr enghreifftiau hyn y byddai cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau ymysg sefydliadau cymunedol llai yn effeithiol iawn ar gyfer dinasyddion Cymru.

Daeth pob un o'r grwpiau ynghyd ar ddiwedd y sesiynau gweithdy i adrodd yn ôl ar y prif themâu yn eu trafodaethau. Roedd yn amlwg fod cryn dipyn yn gyffredin yn yr awgrymiadau a wnaed yn y gwahanol weithdai.

Adborth cyffredinol
Dangosodd ffurflenni gwerthuso i'r digwyddiad ymateb cadarnhaol.

- Roedd arwydd cryf y byddai digwyddiad pellach yn fanteisiol ac y croesewid gweithgaredd i fapio a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau presennol. Dylai cyfarfodydd y dyfodol fod yn benodol ar grŵp cleient i gasglu adborth manylach gan grwpiau penodol am eu hanghenion a'u profiadau o wasanaethau cyngor cyfreithol.
- Soniwyd fod y cyfle i rwydweithio yn rhan werthfawr o'r digwyddiad.
- Mae'r Rhyngrwyd a'r ffôn yn bwysig. Roedd y ddau yn adnodd cynyddol gyda mwy a mwy o bobl yn cyrchu gwybodaeth a chyngor yn y ffordd hon bob dydd.
    - Dywedwyd ei bod yn anodd mynd o amgylch gwefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a theimlid ei bod yn amhosibl dod o hyd i'r hyn rydych eisiau. Dylai gwybodaeth am y digwyddiad hwn fod ar gael ar y wefan a dolenni i sefydliadau eraill i gynorthwyo yn y pwyntiau a wnaed am godi proffil sefydliadau cefnogaeth eraill.

Argymhellion o'r Digwyddiad

Gweithgaredd	**Dolenni allweddol i gael eu datblygu**
Dylid rhoi blaenoriaeth i addysg gyfreithiol mewn ysgolion a dylid rhoi cefnogaeth i unrhyw weithgareddau i gyflwyno unrhyw gynlluniau o'r fath.	Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cynllun Llythrennedd Ariannol yn y Cwricwlwm ABCh Cyngor Defnyddwyr Cymru – Gwefan Addysg Defnyddwyr
Dylid targedu allfannau iechyd gofal Sylfaenol ac Eilaidd ar gyfer hyrwyddo ystod eang o wybodaeth gyfreithiol.	Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol – Cyngor Cyfreithiol Cymunedol
Dylid targedu troseddwyr a rhai mewn risg o ail-droseddu ar gyfer addysg a chyngor cyfreithol	Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr – llwybrau i ostwng aildroseddu Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol – Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, mynediad i Gyngor Cyfreithol Arbenigol
Manylion Gwasanaethau Cyngor Cyfreithol Cymunedol i gael eu lledaenu drwy rwydweithiau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a phartneriaethau Cymru'n Gyntaf	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cynyddu'r gefnogaeth ar gyfer cynlluniau addysg gyfreithiol effeithlon ar draws Cymru .	Pawb
Dylid codi proffil grwpiau eiriolaeth a chefnogaeth o fewn cymunedau.	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ostwng effaith ar unigolion a'u hangen am gyngor, oherwydd problemau cyffredin ac ailadroddus wrth gael mynediad i fudd-daliadau.	Llywodraeth Cynulliad Cymru Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Ymgysylltu gyda Chymdeithasau Gwirfoddol Sirol a rhanddeiliaid allweddol yn rhanbarthol ar gyfer pob un o'r wyth ardal caffael wrth ddylunio a gwerthuso gwasanaethau.	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithol
Galluogi trawsgyfeirio gyda rhwydweithiau CCB i godi ymwybyddiaeth a phroffil y gwasanaethau sydd ar gael.	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru